# Paratoi ceffylau ar gyfer cystadlaethau

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn gysylltiedig â pharatoi ceffylau ar gyfer cystadlaethau.

Dylech fod yn gallu gofalu am y ceffyl tra'ch bod yn y digwyddiad a chyflwyno'r ceffyl yn y gystadleuaeth ar yr amser priodol.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

Noder: Nid yw'r safon hon yn cynnwys cludo ceffylau i gystadlaethau, sydd wedi ei gynnwys yn safon LANCS65.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. cydymffurfio â rheoliadau a rheolau'r gystadleuaeth drwy'r adeg
3. sicrhau bod y ceffyl yn cael gofal tra'i fod yn y digwyddiad
4. trin ac atal y ceffyl mewn ffordd nad yw'n peryglu lles anifeiliaid, yn osgoi ymddygiad sydd yn peri pryder ynghylch lles ac yn cynnal iechyd a diogelwch
5. paratoi'r ceffyl ar gyfer y gystadleuaeth trwy osod harneisiau ac offer priodol ar gyfer y ddisgyblaeth benodedig
6. cyflwyno ceffylau yn y gystadleuaeth ar yr adeg gywir
7. cyfathrebu gydag eraill er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau'n cael eu dilyn
8. asesu iechyd y ceffyl cyn ac ar ôl y gystadleuaeth
9. adnabod ac adrodd ynghylch unrhyw broblemau o ran graddfeydd adferiad, trychiadau, chwyddo, pedolau, dim archwaeth am fwyd a dadhydradu
10. cadw cofnodion cywir a diweddar yn unol â rheoliadau'r gystadleuaeth a'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo
11. monitro a chynnal eich diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. yr awdurdodau llywodraethu perthnasol a rheolau a rheoliadau'r gystadleuaeth
3. y mathau o gystadleuaeth a lleoliad
4. y gweithdrefnau cofrestru perthnasol
5. pasbortau a gofynion hunaniaeth ceffylau
6. y gwiriadau iechyd a lles gofynnol
7. y sylweddau sydd wedi eu gwahardd
8. pwysigrwydd defnyddio technegau trin ac atal priodol, a lleihau straen ar y ceffyl a'r peryglon i chi eich hun ac i eraill
9. y problemau allai ddigwydd gyda cheffylau mewn amgylchedd cystadleuaeth
10. y gweithdrefnau cynhesu cyn perfformiad
11. y ffactorau sy'n effeithio ar y defnydd o harneisiau ac offer
12. y mathau o hinsawdd, cyflwr y tir, y dirwedd a'u heffaith ar berfformiad
13. pa gofnodion dylid eu cynnal a'u pwysigrwydd
14. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
15. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Gofalu am geffylau mewn dwy gystadleuaeth wahanol

Paratoi gyda'r mathau canlynol o geffyl:

- profiadol
- amhrofiadol

Gofalu am geffylau ar ôl cystadleuaeth trwy:

- dynnu harneisiau ac offer,
- cerdded allan
- cynhesu i lawr
- golchi i lawr
- gosod carthenni/rhwymau

LANEq346

Paratoi ceffylau ar gyfer cystadlaethau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq346 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; cystadlaethau; ras |